

Materion Addysg

1. **Diwygio'r Cwricwlwm.** (o bapur gan Manon Jones, Llywodraeth Cymru)

Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddatblygu'n raddol rhwng nawr a 2021. Ar ddiwedd tymor yr haf, fe gyhoeddwyd amlinelliadau o siâp y chwe maes dysgu a phrofiad a argymhellir ar gyfer y disgyblion, sef:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg.

Bydd Addysg Grefyddol yn rhan o faes y Dyniaethau. Wrth ymateb i gwestiynau gan Cytûn, meddai Llywodraeth Cymru:

Gallaf gadarnhau, yn unol ag argymhelliad 9 o Dyfodol Llwyddiannus, y bydd Addysg Grefyddol yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac yn parhau'n ofyniad statudol o'r dosbarth derbyn ymlaen. Nid oes gennym fwriad ar hyn o bryd i newid y ddeddfwriaeth ynghylch yr hawl i dynnu disgyblion o wersi Addysg Grefyddol. Bydd Addysg Grefyddol i'w weld yn glir yn y Dyniaethau, a bydd pynciau yn gyffredinol yn parhau'n bwysig o fewn y fframwaith newydd.

Fel aelod o'r Grŵp Rhanddeiliaid, bydd Cytûn yn parhau i gymryd rhan lawn wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

Mae'r Athro Donaldson hefyd yn argymhell y dylai Addysg Grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Felly, mae CYSAGau, a CCYSAGauC fel y corff cenedlaethol, yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r agwedd hon ar y cwricwlwm newydd i Gymru. I hwyluso'r gwaith hwn, sefydlwyd grŵp cynllunio sy'n cynnwys aelodau o CCYSAGauC, PYCAG, Llywodraeth Cymru yn ogystal â chynrychiolwyr ym maes y Dyniaethau o'r consortia rhanbarthol ac Estyn.

Ers mis Ionawr, mae'r gweithgorau Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi canolbwyntio ar y tasgau canlynol:

- Datganiad clir ar sut mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo pedwar diben y cwricwlwm.
- Disgrifiad o gwmpas a ffiniau'r Maes Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys ei faterion canolog, sut mae'n wahanol i'r meysydd eraill a pham mae'n bwysig ar gyfer addysg pob plentyn a pherson ifanc.
- Penderfyniad ynghylch y ffordd orau o gyflwyno'r pynciau a/neu linyddau gwahanol yn y Maes Dysgu a Phrofiad.
- Sylwadau ar benodolrwydd tybiedig y Maes Dysgu a Phrofiad a'r rhesymau dros hyn.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu pob un o'r tasgau a amlinellir uchod, mae'r chwe gweithgor Maes Dysgu a Phrofiad wedi paratoi a llunio adroddiadau sy'n amlinellu eu syniadau hyd yma.

Gellir gweld y crynodebau gweithredol drwy ddilyn y ddolen atodedig isod:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/170707-new-curriculum-for-wales-story-so-far-cy.pdf>

Y camau nesaf

Bydd y gwaith o ddatblygu manylion y cwricwlwm yn dechrau yn ystod tymor yr hydref a byddwn yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn CCYSAGauC a PYCAG yn ystod y broses hon. Mae pob CYSAG yn cael eu gwahodd i ystyried y crynodeb gweithredol mewn perthynas â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a chynnig sylwadau a/neu awgrymiadau i'w hystyried yn ystod cam nesaf y gwaith.

Nid yw **addoli ar y cyd mewn ysgolion** (o bapur gan Gethin Rhys) yn rhan o'r adolygiad ar y cwricwlwm, ond bu yn y newyddion pan ddechreuodd dau ddisgybl mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd ddeiseb i'w ddileu. Cyn bo hir fe ddechreuwyd deiseb arall i gadw addoli ar y cyd gan ferch arall yn ei harddegau, a denodd bron ddwywaith gymaint o lofnodion â'r ddeiseb gyntaf. Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried y ddwy ddeiseb hon ar y cyd, a bu mewn gohebiaeth â'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, amdanynt – ac mae wedi ysgrifennu eto yn holi a oes unrhyw oblygiadau ar gyfer hawliau dynol. Nid yw Ms Williams wedi awgrymu fod y Llywodraeth yn cynllunio unrhyw newidiadau i'r trefniant presennol.

Fe allai'r Pwyllgor argymhell trafod y deisebau ar lawr y Cynulliad, ond pe digwyddai hynny mae'n bwysig deall na fyddai unrhyw ganlyniad yn rhwymo'r Llywodraeth, a byddai unrhyw newid yn y ddeddfwriaeth yn cymryd blynyddoedd a llawer o ymgynghori â'r cyhoedd. Felly tra bod Cytûn yn dilyn y drafodaeth â chryn ddiddordeb, a bydd yn darparu gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad yn ôl yr angen, ni ddylid disgwyl unrhyw newid yn fuan.

Sul Addysg, 10 Medi. Roedd adnoddau ar gael ar www.educationsunday.org.uk, yn cynnwys nodiadau Beiblaidd gan David Cornick, amlinelliad o wasanaeth ar gyfer pob oedran a syniadau ar gyfer addoli mewn ysgolion. Gweler hefyd wefan freechurches.org.uk am adnoddau ar y thema addysg. Ceir adnoddau Cymraeg ar http://ysgolsul.com/?page_id=359

2. **System addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi'i diwygio:** Deddfwriaeth i weithredu Adolygiad Hazelkorn o addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Ymgynghoriad tan 23/10/2017.

3. Mae **adroddiadau diweddar Estyn** wedi canolbwyntio ar a) Lleihau baich Gwaith athrawon a phenaethiaid, b) Hyfforddiant Arolygydd Cymheiriaid, c) Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17, ch) Cyfarthrebu trwy Facebook, d) Datblygu trefniadau newydd ar gyfer arolygu, dd)Cynradd – Defnyddio asesu ar gyfer dysgu i gau bylchau yn nysgu'r disgyblion, e) Uwchradd – Datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer gwella addysg; Gweithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd; Gwyddoniaeth yng nghyfnod CA3 and 4; Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion, ac f) Thematig - Arfer dda yn y dyniaethau.

4. **Pwyllgor Addysg yr Eglwys Rhyddion.**

Ni lwyddais i fynychu'r cyfarfod o'r pwyllgor yn Llundain ar ddydd Mawrth, 17 Hydref, 2017 oherwydd priodas deuluol.

Mewn cyfarfod blaenorol nodwyd bod y The Selly Oak Foundation yn bwriadu llunio adnoddau Cyfnod Allweddol 2, 3 a 4 ar gyfer ysgolion yn dwyn y teitl 'Reforming Christianity'. Holais a fyddai'n bosib i'r adnoddau hyn fod ar gael yn Gymraeg ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Roedd Julie Grove

(Cadeirydd FCEC dros Gymru a Lloegr) yn mynd i holi a fyddai modd cael arian gan y Sefydliad i ymgymryd â'r gwaith cyfieithu hwn.

Adroddiad 'The Free Church Voice in Higher Education'. Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn ei ffurf draft presennol yn canolbwyntio ar Loegr a holais yn y cyfarfod diwethaf a fyddai mewnbwn gan Addysg Uwch Cymru yn fuddiol. Penderfynwyd fy mod i'n mynd â'r mater i'r cyfarfod nesaf o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ac yna'n adrodd yn ôl i'r FCEC gan nodi'r posibiladau.

5. Mae'n bwysig hefyd nodi gyhoeddiad dwyieithog hanes **Mudiad Addysg Gristnogol/Grefyddol Cymru** eleni. Mae'r gyfrol Gymraeg *Hyrwyddo Crefydd: Hanes Mudiad Addysg Gristnogol/Grefyddol Cymru 1965-2015* gan Aled D Jones ar gael o siopau llyfrau Cymraeg, gwefan Gwales.com neu gan Sali Roberts, Ysgrifenyddes: salipatshyn@hotmail.com. Pris: £7.99; ISBN 9781859948675.

6. Anfonais **E-lythyrau Dysg Llywodraeth Cymru ac adroddiadau Estyn** yn rheolaidd at y Parchedig Hywel Richards, ac yn ddiweddar at ei olynydd, y Parchedig Jeff Williams.

Vaughan Salisbury